# DEDDF COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU ETC. 2013

# Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Cymundau Llanboidy a Hendy-gwyn ar Daf) 2025

*Gwnaed* - - - - ***[04/11/2025]***

*A ddaw i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ("y Cyngor"), yn unol ag adran 25 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno adroddiad i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") ar 6 Awst 2025 ar ei arolwg o drefniadau cymunedol yn Sir Gaerfyrddin a'i argymhellion ar gyfer newidiadau iddynt.

Mae'r Comisiwn wedi cytuno i weithredu argymhellion y Cyngor gydag addasiadau sy'n pennu'r wardiau cymunedol yr effeithir arnynt gan argymhellion y Cyngor, ac mae'r Cyngor wedi cytuno ar yr addasiadau.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i argymhellion y Cyngor gael eu cyflwyno i'r Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn gwneud y Gorchymyn canlynol wrth arfer y pŵer a roddir iddo gan adran 38(1) Deddf 2013.

**Teitl a chychwyn**

**1.**–(1) Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Cymunedau Llanboidy a Hendy-gwyn ar Daf) 2025.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym y diwrnod ar ôl y diwrnod y'i gwneir [**04/11/2025**].

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn–

> Mae "Map A" yn golygu'r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;

lle y dangosir ffin ar fap sy'n mynd ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troedffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, dylid ei thrin fel petai'n mynd ar hyd llinell ganol y nodwedd;

mae gan eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag yn Rhan 3 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013, ac eithrio i'r graddau y mae bwriad croes yn ymddangos.

**Newidiadau i ardal llywodraeth leol**

**3.** Gwneir newidiadau yn ardal llywodraeth leol Sir Gaerfyrddin yn unol â darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn.

**Cymunedau Llanboidy a Hendy-gwyn ar Daf – newid i ardaloedd cymunedol**

**4.** Mae'r rhan o gymuned Llanboidy a ddangosir wedi'i lliwio'n glas ar Fap A:

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Hendy-gwyn ar Daf; ac

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Gogledd o fewn cymuned Hendy-gwyn ar Daf.

Wedi'i seilio â sêl Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar **04** diwrnod **o Tachwedd** 2025

**[04/11/2025]**

*Beverley Smith*


Cadeirydd

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

**ATODLEN 1**

**MAP A – NEWIDIADAU I ARDALOEDD CYMUNEDOL – CYMUNEDAU LLANBOIDY A HENDY GWYN AR DAF** **Erthygl 2**

## Ardal i drosglwyddo o Bontyfenni (Llanboidy) i Gogledd (Hendy-gwyn ar Daf)



## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 38(1) Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013"), yn gweithredu argymhellion a wnaed gan Gyngor Sir Caerfyrddin ("y Cyngor"). Adroddodd y Cyngor ym mis Awst 2025 ar ei arolwg o dan adran 25 Deddf 2013 o ffiniau cymunedol.

Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i ffiniau cymunedau Llanboidy, a Hendy-gwyn ar Daf. Mae'r gorchymyn hwn yn gwneud newidiadau i ffiniau'r cymunedau hynny.

Mae copïau argraffedig o fap ffiniau A y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â nhw wedi'u hadneuo a cheir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir Caerfyrddin [**ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (Yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol)**